Cenn@d

RHAGFYR 27 2023 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 148

Dathliadau'r Nadolig ar draws Cymru

Plant Ysgol Sul Pencaenewydd, Eifionydd, yn cyflwyno drama'r geni fore Sul, 17 Rhagfyr

Plant Ysgol Sul Chwilog yn cyflwyno drama'r geni bnawn Sul, 17 Rhagfyr

Plant Ysgol Sul ac Ieuenctid Rhydfendigaid a gymerodd ran yn y Gwasanaeth Nadolig

Criw Caru Caernarfon o eglwys Caersalem yn dymuno Nadolig Llawen i bawb

Plant ac athrawon Ysgol Sul Horeb, Dyffryn Ardudwy, ar ôl gwasanaeth Nadolig bore Sul, 17 Rhagfyr

Gwasanaeth plant ac ieuenctid Capel y Groes ac Ebeneser, Wrecsam, bore Sul, 17 Rhagfyr

Y plant a'r ieuenctid yn cymryd rhan yn y Gwasanaeth Nadolig yng Nghapel Libanus, Pant-glas, ar 17 Rhagfyr

Plant Ysgol Sul Llwyndyrys yn cyflwyno drama'r geni nos Sul, 17 Rhagfyr

Rhagor o luniau ar dud. 2 a 4

'Gogoniant yn y goruchaf i Dduw a thangnefedd ar y ddaear i bawb o ewyllys da' (Luc 2:14)
Tudalen 3

'Wele, cawsom y Meseia'
Tudalen 5

O'r byd a'r betws Pa fath o Nadolig eleni?
Tudalen 7

Ysgol Sul Noddfa, Llanbedr Pont Steffan, yn cyflwyno eu gwasanaeth Nadolig

Plant ysgol Sul Jeriwsalem, Cerrigydrudion, yn barod i gymryd rhan yn eu gwasanaeth Nadolig, bore Sul, 17 Rhagfyr

Criw plant a phobl ifanc eglwys Salem, Caerdydd yn cyflwyno'u gwasanaeth Nadolig i gapel gorlawn

Gwasanaeth Nadolig plant ac ieuenctid ysgol Sul Llannefydd

J. D. Vernon Lewis a Phenillion Carolaidd Arbennig Luther

Yng ngaeaf 1923, gan mlynedd yn ôl, y troswyd o'r Almaeneg gan J. D. Vernon Lewis emyn Luther (1483–1546) i'w blentyn Hans: 'Vom himmel hoch', sef 'Cân yr Angel' a Moliant Plentyn' – carolau ar gyfer cyfarfodydd plant Eglwys Gibea, Brynaman. Dysgwyd y dôn iddynt, ac roedd y plant yn canu emyn Luther mewn Almaeneg ac yn Gymraeg. Eiddo Luther yw'r dôn hefyd.



Roedd John Daniel Vernon Lewis (1879–1970) yn frodor o Abertawe a bu'n weinidog ar eglwysi Annibynnol yn Lerpwl, Wrecsam ac wedyn Gibea, Brynaman (1921–35), nes ei ddewis yn Athro ac yna'n Brifathro Coleg Coffa Aberhonddu. Treuliodd ei ymddeoliad yn Aberllefenni ar y dechrau, cyn symud i Fachynlleth.

Roedd Vernon Lewis yn ysgolhaig ac yn awdur o bwys. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd bu'n gwasanaethu mewn Almaeneg i garcharorion yn Aberhonddu a Glangwili, ger Caerfyrddin. Byddai hefyd yn darlithio yng Ngholeg Presbyteraidd Caerfyrddin.

Cyfieithodd emyn Edwin Hatch, 'Breathe on me, Breath of God' i'r Gymraeg ac meddai:

'Dyma'r emyn a adroddai y Parch. E. Keri Evans, Caerfyrddin, â'i anadl olaf a gweddi erfynol emyn mawr Edwin Hatch ar ei fin, 4 Mehefin 1991, a minnau yn ddiarwybod yn cyfieithu'r emyn ar yr union ddydd y bu ef farw! Canwyd y cyfieithiad ar lan ei fedd yn Eglwys Llandyfrïog, Castell Newydd Emlyn, a thrachefn mewn gwasanaeth Coffa yn ei hen eglwys barchus, y Priordy, Caerfyrddin. Ar gais ei weddw, a'i ferch, Nesta Keri Wood, y genhades, pennais yr hyn sydd heddiw yn argraffedig ar ei fedd-faen yn Llandyfrïog.'

Dywed *Y Bywgraffiadur Cymreig* am Vernon Lewis: 'Safai ym mhob dim yn rheng y cewri, ac fel medelwr arbennig gadawodd ysgubau arbennig ar ei ôl.'

Ymysg yr ysgubau hynny mae'r gyfrol *Mawl i'r Goruchaf* (1962), sef casgliad o emynau a chyfieithiadau o'i eiddo. Yn y gyfrol hon y gwelir penillion carolaidd Luther:

Vom Himmel hoch komm ich her
Canys ganwyd i chwi heddiw Geidwad yn ninas Dafydd,
yr hwn yw Crist yr Arglwydd – Luc 2:11

Cân yr Angel
O'r nefoedd fry y deuthum lawr,
Gan ddwyn i chwi newyddion mawr;
Newyddion da a bery mwy,
Mi ganaf byth amdanynt hwy.

I chwi y ganwyd Ceidwad dyn,
Ac anfonedig Duw ei Hun,
Yn blentyn hardd a thyner iawn,
A ddwg i chwi lawenydd llawn.

Moliant Plentyn
Hwn yw ein Crist a'n Harglwydd ni,
Ym mhob rhyw loes fe wrendy'n cri;
Hwn yw ein Ceidwad cryf o hyd,
I'n gwneud yn lân a gwyn ein byd.

Ein calon mwy a lawenha,
I draethu y Newyddion Da;
O enau plant daw'r felys gân
Fu'n suo crud yr Iesu glân.

Gogoniant i'r Goruchaf Dduw,
Am roi ei Fab i'n plith i fyw;
Angylion gân â llawen lef –
Daw dyddiau'r ddaear fel y nef.

Martin Luther, 1483–1546

Alun Charles (Allan o Bapur y Priordy Rhagfyr '23)

‘Gogoniant yn y goruchaf i Dduw a thangnefedd ar y ddaear i bawb o ewyllys da’ (Luc 2:14)

Annwyl gyfeillion,

Wrth i ni deithio drwy’r Adfent, fe gawson ni gyfle i edrych ymlaen at rai o ddyddiadau gorau’r flwyddyn. Ac wrth ddathlu Gŵyl Nadolig arall, gallwn ryfeddu gyda’n gilydd at ras Duw yn disgleirio yn y baban mewn preseb. Wythnos yn ddiweddarach byddwn yn ffarwelio â 2023 ac yn croesawu 2024. Mae’n amser cyffrous ac yn gyfle i ni fyfyrio ar yr hyn a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

Dwi newydd orffen pererindod heddwch, lle bûm yn cerdded Llwybr y Pererinion ar draws gogledd Cymru yng nghwmni ffrindiau o Eglwys Bresbyteraidd Cymru, ffrindiau o Gymorth Cristnogol ac enwadau eraill hefyd. Yn ystod ein taith cynhaliwyd 11 cyfarfod, yn syml iawn i ddymuno Nadolig llawen ac ewyllys da i bawb o ewyllys da a oedd wedi dod i addoli gyda ni yn y llefydd hynny o addoliad. Rhannwyd ein hiraeth am weld heddwch a chyfiawnder yn llifo ymhlith cenhedloedd y ddaear. Geiriau pennill olaf ‘I orwedd mewn preseb’ fydd yn aros yn fwyaf byw yn fy nghof, a hynny ar ôl ei chanu droeon yn ystod y bererindod. Rhoddwyd cyfle i bawb gofnodi enw un o’r miloedd o blant Gaza ac Israel sydd wedi eu lladd yn y gyflafan ers 7 Hydref.

Tyrd, Iesu, i’m hymyl, ac aros o hyd
I’m caru a’m gwylio tra bwyf yn y byd;
Bendithia blant bychain pob gwlad a phob iaith,
A dwg ni i’th gwmni ar derfyn ein taith.

Yn wyneb yr angen am heddwch a chyfiawnder, buom yn codi llais eleni gydag eraill, gan alw am fyd tecach. Ynghyd â’n partneriaid yn y Cyngor Cenhadaeth Fyd-eang (CWM), fe wnaethom dynnu sylw at y sefyllfa anghredadwy sy’n wynebu’r miliynau o bobl sydd wedi eu dal yn gaeth yn Gaza. Fe wnaethon ni alw ar Israel i roi’r gorau i’w bomio a rhoi sylw i’r argyfwng dyngarol sy’n traflyncu’r rhanbarth. Fe wnaethom hefyd dynnu sylw at y sefyllfa sy’n wynebu miloedd o Gristnogion ym Manipur, talaith yng Ngogledd-ddwyrain India lle mae gennym gymaint o gysylltiadau oherwydd ein gwaith cenhadol. Bu tonnau o drais a braw yn yr ardal honno ers mis Mai, gan orfodi llawer o Gristnogion i ffoi am eu bywydau i’r taleithiau cyfagos. Lansiwyd apêl gweddi ym mis Hydref, ac rydym wedi parhau i gyfarfod i weddïo bob bore Gwener dros Zoom yng nghwmni pobl sydd â Manipur a’r ardal ar eu calonnau. Rydym yn parhau hefyd i godi llais yn erbyn yr anghyfiawnderau sy’n wynebu Cristnogion, ac eraill, ym Myanmar, lle gall dweud y gwir wrth y rhai mewn grym ddod â chosb ffyrnig, gan gynnwys marwolaeth.

Diolchwn am bob diwydrwydd yn ein plith fel enwad, a’r awydd sydd i blesio’r Arglwydd ym mhopeth a wnawn. Tra bo llawer o leisiau yn sôn am ddirywiad eglwysig, rydym yn weddigar a thrwy ras Duw wedi mentro creu nifer o brosiectau arloesol, gan alluogi mynegiant newydd o gyflwyno’r Efengyl ar draws y wlad. Mae’r heriau mawr yn ein hwynebu, ond gyda chymorth yr Arglwydd edrychwn i’r dyfodol gyda ffydd. Ac mae hyn hefyd yn wir am y cynlluniau newydd sydd ar y gweill yng Ngholeg Trefeca. Dyma un o drysorau mwyaf ein cenedl, heb sôn am drysor i ni fel enwad, lle sy’n adlewyrchu canrifoedd o ddisgyblaeth, cenhadaeth a dysg. Ond yn awr, dan arweiniad y Parch Wayne Adams a’i dîm, mae pennod newydd yn agor i’r lle hynod hwn. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr i’ch croesawu yn 2024 yn Nhrefeca.

I lawer, mae’r Adfent yn gyfnod o gofio poenus am anwyliaid nad ydyn nhw gyda ni mwyach. Yr ydym fel teulu’r eglwys yn galaru am farwolaeth amryw o’n gweinidogion, gan gynnwys dau gyn-lywydd. Cofiwn hwy yn annwyl a diolchwn i Dduw am eu gwasanaeth ffyddlon. Gweddïwn gysur yr Arglwydd ar eu teuluoedd a phawb sy’n galaru.

Yn olaf, chwiorydd a brodyr, boed i ni i gyd yn awr bresenoldeb parhaol Duw pob cysur y Nadolig hwn. Wrth inni ymdrechu tuag at fyd mwy heddychlon a chyfiawn, bydded i Dywysog Tangnefedd deyrnasu yn ein calonnau, ein cartrefi a’n heglwysi.

Gyda llawer o gariad a bendith,

Y Parch Nan Wyn Powell-Davies
Ysgrifennydd Cyffredinol,
Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Dydd Gweddi’r Byd

Cynhadledd y De – Festri Heol Awst, Caerfyrddin Dydd Mercher, 29 Tachwedd 2023

Daeth cynrychiolaeth dda ynghyd i’r Gynhadledd er mwyn paratoi ar gyfer Gwasanaeth Dydd Gweddi’r Byd, 1 Mawrth 2024. Paratowyd y gwasanaeth ar gyfer 2024 gan ferched Cristnogol Palesteina. Cyn dechrau ar y gwasanaeth derbyniwyd croeso mawr gan wragedd Capel Heol Awst, a mwynhawyd te, coffi a bisgedi. Cafwyd gair ingol oddi wrth Iris Owen, o Amnest Caerfyrddin, a soniodd am yr ymgyrch sydd ymlaen ar hyn o bryd ganddynt, ymgyrch i gefnogi trwy arwyddo llythyr Amnest, sef ‘Write for Rights’. Mae’r ymgyrch hon yn para o ddechrau Tachwedd hyd ddiwedd Rhagfyr bob blwyddyn, pan fydd cardiau cyfarch yn cael eu hanfon at garcharorion neu eu teuluoedd, yn ogystal â llythyron at arweinwyr gwledydd neu swyddogion y llywodraethau. Grŵp Amnest Caerfyrddin fydd yn eu hanfon yn unigol.

Wedyn aethpwyd drwy wasanaeth Dydd Gweddi’r Byd gyda Sarah Morris, cyd-Ysgrifennydd yr Is-bwyllgor Cymraeg. Cafwyd cwmni a chyfraniadau pwysig gan wragedd o eglwysi Heol Awst; Tabernacl, Caerfyrddin; Cwmgiedd; y Babell, Rhydaman; Peniel, Bro Cemaes; Dyffryn Teifi; Aberteifi, Llangadog; Gibeon, Sanclêr; y Priordy, Caerfyrddin; Llanddarog, a nifer o ffrindiau sy’n awyddus i gynnal y gwasanaeth ym mis Mawrth 2024.

Am ragor o wybodaeth neu adnoddau, cysyllter â Sarah: sarah.morris@ebcpcw.cymru, a gellir archebu rhaglenni gan y trysorydd, Margaret Morgan: margaretmaudmorgan@gmail.com.

Gwerthfawrogwyd presenoldeb pawb yn y gynhadledd a dymunwyd yn dda i Natalie Morgan, sy’n derbyn hyfforddiant o dan adain y Parchedig Beti Wyn James. Arweiniwyd y grwpiau trafod gan Helen Gibbon, y Parchedig Sian Elin Thomas a’r Parchedig Carys Ann.

Parchedig Beti Wyn James a’r Parchedig Carys Ann
Swyddogion Cyhoeddusrwydd

O Gefn Gwlad

‘Daeth Crist i’n plith …’

Dyna, mewn pedwar gair o linell gynta’r garol gan J. R.Jones, ddisgrifiad cryno o’r Nadolig, y rheswm am ei fodolaeth ac am yr holl ddathlu. A byddwn yn onest, fe’i defnyddiwn fel esgus neu reswm am bob math o weithgareddau ac arferion, llawer ohonyn nhw wedi crwydro braidd ymhell o wirionedd a neges y Nadolig cyntaf. Ond amryw, rhaid cyfadde, yn rhai yr wyf fi wrth fy modd efo nhw. A pham ddim dathlu? Mae digon yn ein byd i’n gwneud yn drist, yn anesmwyth ac yn anfodlon. Anghofiwn y cyfan dros dro – a dathlwn.

Ac yna anwybyddwn ddyfodiad y Mab, os cofiwyd amdano o gwbwl. Yn dynn ar sodlau’r Nadolig daw’r flwyddyn newydd, a chyfle pellach i ddathlu. Nes y daw’r ddeubeth eto, os byw ac iach, gan mai ‘mynd rownd fel ceffylau bach mewn sioe’ yw bywyd, chwedl un awdur.

Ond, ac y mae yna ‘ond’. Un o weithredoedd Crist yn y byd oedd galw disgyblion ato, ac os ydym i gredu’r gwirionedd Cristnogol, mae o’n dal i alw rhai i’w ddilyn. Beth yw arwyddocâd hynny i ni sy’n arddel Cristnogaeth? Mae sawl ateb, ac un gan yr awdur Seisnig G. K. Chesterton (crëwr yr offeiriad ddidectif enwog Father Brown): ‘Addawodd Crist dri pheth i’w ddisgyblion – y byddent yn gwbwl ddi-ofn, y tu hwnt o hapus, ac mewn trwbwl parhaus.’* Os ydym yn honni bod yn ddisgyblion i Grist, gallwn ddefnyddio’r geiriau hyn i holi ein hunain.

A ydym yn ddi-ofn wrth arddel ein cred? A ydym yn barod i sefyll dros yr hyn sy’n iawn, i frwydro yn erbyn anghyfiawnder pan welwn ef, i ddatgan yn gyhoeddus ein hargyhoeddiad pan mae angen? A ydym yn gadael i bawb wybod beth yr ydym yn ei gredu, mewn geiriau eraill i wneud yn gyhoeddus ein ffydd? Neu a ydym yn cuddio y tu ôl i dawelwch, ac yn gweithredu’r ddihareb mai ‘doeth pawb tra tawo’, neu mewn iaith bob dydd – calla dawo?

A ydym y tu hwnt o hapus? Na, nid am fod gennym iechyd a hawddfyd, digon o gynnyrch materol y byd hwn, a theulu sy’n ein caru, os yw’r rhain i gyd gennym. Mae cymaint o bethau sy’n rhoi i ni hapusrwydd, hapusrwydd y foment yn aml, falle. Nid dyna’r cwestiwn yn y fan yma. Ond a ydym yn wirion o hapus oherwydd bod Crist gyda ni, am ein bod yn ddisgyblion iddo? Nid y cyflwr yr ydym ynddo yw’r cwestiwn, ond y rheswm amdano.

Yn ôl Chesterton, fe addawodd Crist i’w ddisgyblion hefyd y byddent mewn trwbwl o hyd, a hynny mae’n debyg am y byddent yn gweithredu’r addewid cynta – o fod yn gwbwl ddi-ofn. A ydym yn barod i wynebu problemau astrus wyneb yn wyneb, a hynny’n creu trafferthion i ni, yn golygu gwrthdaro yn erbyn credoau cyffredin y dydd, yn erbyn secwlariaeth yr oes, yn erbyn awdurdod, falle?

Mae yna stori am blismon yn nhre Caernarfon slawer dydd na fu erioed mewn unrhyw drafferth efo neb na dim. Ar ei ymddeoliad gofynnwyd iddo sut y llwyddodd o i gael gyrfa ddidramgwydd. ‘Mae’r ateb yn syml,’ meddai. ‘Yn ystod y dydd, pan oedd y strydoedd cefn yn olau a dim drwgweithredwyr yn llercian yn y cysgodion, yno y byddwn yn cerdded o gwmpas i ddangos fy awdurdod. Yna, pan ddeuai’r nos a thywyllwch i’r strydoedd cefn, awn i olau llachar y Maes i gerdded ’nôl a blaen yn hamddenol lle’r oedd pobl yn ymddwyn yn gall ac yn bihafio.’

Ai disgyblion felly ydym, yn debyg hefyd i un o gymeriadau *Taith y Pererin* fyddai’n gefnogol i’w grefydd pan wisgai honno ei dillad gorau a cherdded y strydoedd golau? Falle y dylem, ynghanol ein dathlu, sbario ennyd i ofyn y cwestiwn i ni ein hunain: ydw i’n ddisgybl go iawn?

Nadolig llawen!

* *Jesus promised his disciples three things – that they would be completely fearless, absurdly happy and in constant trouble.*

Elfyn Pritchard

Llun o oedfa Nadolig Clwb Sul, Capel y Morfa, Aberystwyth. Y thema oedd Rhannu’r Goleuni a gwnaed y casgliad at Apêl Nadolig Cymorth Cristnogol

Y criw o blant ac ieuenctid gymerodd ran yng ngwasanaeth Nadolig capel Bwlch-gwynt, Tregaron

Gwasanaeth Nadolig capel Aberduar, Llanybydder

Plant ac ieuenctid o eglwysi Cylch Carn Ingli a gymerodd ran yn yr oedfa Nadolig yn Jabes ar y thema ‘Anrhegion’

‘Wele, cawsom y Meseia’

‘Wele, cawsom y Meseia,’ meddai Dafydd Jones o Gaeo (1711–77) yn ei garol boblogaidd. Ond beth yw tarddiad y gair ‘Meseia’? Meshiach yw’r ynganiad Hebraeg a chyfieithiad ohono i’r Groeg yw Christos – Crist. Felly, ystyr Iesu Grist yw Iesu’r Meseia. Mor aml mae pobl yn credu mai cyfenw Iesu yw Crist: Mr Crist! Ystyr gyfyng Meshiach yw ‘un wedi ei eneinio’. Eneinio yn yr Hen Destament oedd arllwys olew am ben rhywun er mwyn ei neilltuo i gyflawni swydd arbennig. Roedd eneinio’n cael ei ddefnyddio i neilltuo pobl i dair swydd, sef: archoffeiriad, proffwyd a brenin.

1. Archoffeiriad
Cafodd Moses orchymyn i eneinio’i frawd Aaron a’i feibion er mwyn eu cysegru i fod yn offeiriaid i Dduw: ‘Yr wyt i’w gwisgo am Aaron dy frawd a’i feibion, a’u heneinio, eu hordeinio a’u cysegru, er mwyn iddynt fy ngwasanaethu fel offeiriaid.’ (Exodus 28:33–41, hefyd 29:7–9 a 30:25–30). Gwaith yr archoffeiriad oedd bod yn gyfrwng rhwng Duw a’i bobl a hefyd i offrymu aberthau dros bechodau Israel yn y tabernacl a’r deml.

2. Proffwyd
Roedd y proffwydi hefyd yn cael eu heneinio er mwyn eu neilltuo i’w gwaith. Digwyddodd hyn i’r proffwyd Eliseus: ‘Dywedodd yr ARGLWYDD wrtho, “Dos yn ôl i gyfeiriad anialwch Damascus, a phan gyrhaeddi, eneinia Hasael yn frenin ar Syria, a Jehu fab Nimsi yn frenin ar Israel, ac Eliseus fab Saffat o Abel-mehola yn broffwyd yn dy le.”’ (1 Brenhinoedd 19:15–16)

Gwaith y proffwydi oedd cyhoeddi gair Duw gan alw pobl Israel a’i harweinwyr i gyfrif. Wrth wneud hynny, roedd rhai’n cyflawni gwyrthiau.

3. Brenin
Roedd brenhinoedd hefyd yn cael eu heneinio. Eneiniwyd Saul yn frenin gan Samuel: ‘Cymerodd Samuel ffiol o olew a’i dywallt dros ei ben, a’i gusanu a dweud, “Onid yw’r ARGLWYDD yn d’eneinio’n dywysog ar ei bobl Israel, ac onid ti fydd yn rheoli pobl yr ARGLWYDD, ac yn eu gwaredu o law eu gelynion oddi amgylch?”’ (1 Samuel 10:1, hefyd 16:10–13). Gwaith brenin yw teyrnasu’n gyfiawn gan edrych ar ôl buddiannau ei deyrnas.

Y Meseia Iesu
Pan anwyd Iesu, daeth fel Meseia Duw, yr un sydd wedi ei eneinio, wedi ei neilltuo i waith arbennig. Fe ystyrir hanes Iesu yn cael ei fedyddio yn afon yr Iorddonen gan Ioan Fedyddiwr a’r Ysbryd Glân yn disgyn arno fel hanes ei eneinio (Marc 1:9–11). Ac fel y Meseia y mae Iesu’n cyfuno’r tair swydd, fel archoffeiriad, proffwyd a brenin. Ar ddechrau ei weinidogaeth aeth Iesu i’r synagog. Cymerodd sgrôl y proffwyd Eseia gan ddarllen y geiriau hyn:

“Mae Ysbryd yr Arglwydd arna i,
oherwydd mae wedi fy eneinio i
i gyhoeddi newyddion da i bobl dlawd.
Mae wedi fy anfon i gyhoeddi fod y rhai sy’n gaeth i gael rhyddid,
a phobl sy’n ddall i gael eu golwg yn ôl,
a’r rhai sy’n cael eu cam-drin i ddianc o afael y gormeswr …” (Luc 4:18)

Fel Archoffeiriad
Y mae Iesu’r Eneiniog wedi ei roi ei hun yn aberth perffaith er mwyn cymodi Duw a phobl. Pan fu farw ar y groes, cymerodd ein pechodau ni arno’i hun a chael ei gosbi yn ein lle. Rhan o waith yr archoffeiriad oedd mynd i mewn i’r cysegr sancteiddiolaf (y stafell fwya sbesial yn y deml) i aberthu aberth cymod rhwng pobl a Duw. Dim ond un waith y flwyddyn yr oedd yr archoffeiriad yn cael mynd i mewn.

‘Dyna’r math o Archoffeiriad sydd ei angen arnon ni – un sydd wedi cysegru ei hun yn llwyr, heb bechu o gwbl na gwneud dim o’i le, ac sydd bellach wedi ei osod ar wahân i ni bechaduriaid. Mae e yn y lle mwya anrhydeddus sydd yn y nefoedd. Yn wahanol i bob archoffeiriad arall, does dim rhaid i hwn gyflwyno’r un aberthau ddydd ar ôl dydd. Roedd rhaid i’r archoffeiriaid eraill gyflwyno aberth dros eu pechodau eu hunain yn gyntaf ac yna dros bechodau’r bobl. Ond aberthodd Iesu ei hun dros ein pechodau ni un waith ac am byth.’ (Hebreaid 7:26–7)

Fel Proffwyd
Y mae Iesu’r Eneiniog yn cyhoeddi neges am gariad rhyfeddol Duw tuag at ddynoliaeth ac yn galw pobl i edifeirwch a ffydd. Y mae’n sefyll o blaid y bregus ac yn llym iawn wrth y rhai hynny sy’n anghyfiawn a gormesol. Yn wir, Iesu yw neges Duw i ddynolryw: ‘Yn y gorffennol pell roedd Duw wedi siarad gyda’n hynafiaid ni drwy’r proffwydi. Gwnaeth hyn bob yn dipyn ac mewn gwahanol ffyrdd. Ond bellach, yn y cyfnod olaf hwn, mae wedi siarad â ni drwy ei Fab.’ (Hebreaid 1:2)

‘Y Gair oedd yn bod ar y dechrau cyntaf.
Roedd y Gair gyda Duw,
a Duw oedd y Gair.’ (Ioan 1:1)

Fel Brenin
Y mae Iesu’r Eneiniog yn llywodraethu dros y cwbl. Y mae’n dod â theyrnas Duw i’r byd sy’n llawn cyfiawnder, cariad a gras, teyrnas sy’n iacháu ac yn adnewyddu. Y mae’n cynnal ac yn nerthu ei bobl ac yn eu galluogi i oresgyn eu gelynion, a phan ddaw yn ôl, Ef fydd y Barnwr cyfiawn.

‘Felly dyma’r angel yn dweud wrthi, “Paid bod ofn, Mair.
Mae Duw wedi dewis dy fendithio di’n fawr.
Rwyt ti’n mynd i fod yn feichiog, a byddi di’n cael mab.
Iesu ydy’r enw rwyt i’w roi iddo.
Bydd yn ddyn pwysig iawn,
a bydd yn cael ei alw’n Fab y Duw Goruchaf.
Bydd yr Arglwydd Dduw yn ei osod i eistedd ar orsedd y Brenin Dafydd,
a bydd yn teyrnasu dros bobl Jacob am byth.
Fydd ei deyrnasiad byth yn dod i ben!’ (Luc 1:30–33)

Yn nhymor y Nadolig, dathlwn mai Iesu yw’r Meseia, eneiniog Duw, yr Archoffeiriad, y Proffwyd a’r Brenin.

Alun Tudur

Gair Duw ar Waith
gan Denzil I. John

Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd

Pennod 14
Canu Clod
31 Rhagfyr

Gweddi

Agorwn ddrysau mawl
i bresenoldeb Duw;
pan fydd ein calon ni'n y gân
ei galon ef a'n clyw. Amen.

(John Gwilym Jones;
Caneuon Ffydd 3)

Darlleniad: Salm 149

Cyflwyniad

Mae rhyw gyfaredd mewn canu cynulleidfaol sy'n cael ei werthfawrogi gan amryw o grefyddau'r byd. Weithiau bydd fel siant, dro arall bydd ar alaw boblogaidd ar ffurf emyn. Disgrifir Llyfr y Salmau fel casgliad o emynau'r Iddewon, ac mae amryw ohonynt yn amlwg ganadwy. Cyfeirir at ganu emyn ar ddiwedd y Swper Olaf (Marc 14:26) a gwerthfawrogir bod emyn yn medru bod yn ddatganiad o fawl a myfyrdod, gweddi ac eiriolaeth, heb anghofio'r emynau o ymgysegriad.

Cafodd emynau lawer o ddylanwad yn y Diwygiad Protestannaidd, a bu cyfraniad gwaith William Williams fel emynydd yn allweddol bwysig i roi credo ar ffurf cân. Yn niwygiad 1904/5 roedd canu yn rhan amlwg o'r profiadau ysbrydol, a gwyddom fod gan gerddoriaeth le canolog ym mhob un o'r traddodiadau Cristnogol, ar wahân i addoliad y Crynwyr.

Myfyrdod

Cyfraniad hyfryd nifer o eglwysi fydd ymweld â chartrefi sy'n gofalu am yr henoed a dwyn addoliad i ganol sefyllfaoedd felly. Bydd rhai unawdwyr neu bartïon canu yn mwynhau ymweld â'r cartrefi hyn a difyrru'r deiliaid. Profiad amryw sydd wedi tystio i hyn yw gweld y sawl sy'n dioddef o anghofrwydd neu fath o ddementia yn teimlo'r awydd i ymuno yn y gân. Mae'r gweithgarwch hwn yn fendith i bawb ac yn dwyn cymdogaeth ynghyd. Bydd rhai eglwysi'n dewis ymweld â chartrefi preifat eu haelodau a chanu carolau gan ddifyrru a dwyn cyfarchion i rai sydd yn gaeth i'r tŷ o bosibl.

Mae i gerddoriaeth yn gyffredinol ac i ganu cynulleidfaol lu o rinweddau sy'n llesol i'r enaid. Bydd harmoneiddio naturiol yn y datganiad yn amlygu pwysigrwydd harmoni ymhlith y cantorion. Mae'r alaw yn denu pobl i wrando a bydd y gerddoriaeth yn medru deffro rhywbeth yn yr enaid sy'n ddyfnach na deall dynion.

Dwy nodwedd amlwg y garol yw bod y geiriau'n dweud y stori tra mae'r gerddoriaeth yn denu pobl i rythm y ddawns. Wrth ganu'r carolau ar ddiwedd blwyddyn ac ymlaen i dymor y plygain, gwahoddwn y gynulleidfa i dderbyn yr hanes ac i ddilyn Arglwydd y ddawns i'r yfory a ddaw.

Gweddi

Diolchwn i ti, Nefol Dad, am gerddoriaeth, ac yn arbennig am hyfrydwch y carolau sydd i'w canu dros gyfnod y gaeaf ar ôl y Nadolig. Canwn ein moliant i ti, Arglwydd, ac ymroi i ddatgan dy glod ar hyd y flwyddyn. Amen.

Cwestiynau i'w hystyried

1. Cyfeirir at y salmau fel llyfr emynau'r Iddewon. Ystyriwch amrywiaeth themâu'r salmau a gofyn beth fyddwch yn dewis ei ganu a pham?
2. Pa garol neu gân plygain sy'n eich sbarduno i ryfeddu at y baban yn y preseb?
3. A yw disgrifio Iesu fel 'Arglwydd y ddawns' yn ein cynorthwyo yn ein moliant?
4. A yw oes y canu cynulleidfaol pedwar llais yn dod i ben? Os felly, beth fydd yn dda ac yn ddrwg am hynny?
5. Tasech chi'n llunio thema i garol neu gân plygain newydd, beth fyddai am ei ddweud?

Gweddi'r Nadolig '23

Iôn yr arfaeth, mala'r arfa' – cariad
nid cweryl yw'r gora',
Duw Iôn, y Newyddion Da,
gosod y crud yn Gaza.

Cofio

O, cofiwn fel y cafwyd – o wyryf
Un heriodd Bren Arswyd,
Duw fel baban a anwyd
Y Llyw – yn lle'r rhygnu llwyd.

Triban y Nadolig

Tri pheth i gôl y 'Dolig –
nodded i blant briwedig,
rhoi cariad triw a gwiw i'r gwan
â'r baban Bendigedig.

Norman Closs

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Nos Galan, Sul, 31 Rhagfyr am 7.30yh – Uchafbwyntiau'r Ŵyl

Bydd Ryland Teifi yn rhannu gwledd o ganu mawl a straeon ysbrydoledig wrth i ni fwynhau rhai o uchafbwyntiau'r gyfres. Ymhlith y cyfranwyr mae'r cyflwynydd Siân Thomas, yr hanesydd Jon Meirion Jones a'r Parch. Dylan Rhys o gyfres Ffit Cymru. A chawn berfformiad gan Aelwyd Hafodwenog.

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 31 Rhagfyr, am 7:30yb a 16:30yp

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r Parchedig Denzil John

Oedfa Radio Cymru
Sul, 31 Rhagfyr, am 12yp

Oedfa dan ofal y Parchedig Dorrien Davies, Esgob Tyddewi

O'r byd a'r betws

Pa fath o Nadolig eleni?

Bydd gan bawb atgofion penodol o'r flwyddyn sy'n tynnu tua'i therfyn y Nadolig hwn, ac mae'n anodd dychmygu beth fydd nodweddion cyffredinol amlycaf yr atgofion hynny. Mae'n siŵr y bydd dialedd, dihidrwydd, diawlineb a dioddefaint yn eu plith. Rhwng Afghanistan, Wcráin, Gaza a Sudan, bydd amryw yn deall arwyddocâd y pedwar gair.

Wrth ganu am Fethlehem mewn carolau hyfryd a llawen, bydd y cantorion yn cofio baban yn ei grud a gobaith yn y byd. Bydd llawer o dai wedi eu goleuo ag addurniadau pwrpasol, ac oddi mewn i'r anheddau hynny, bydd canhwyllau a delweddau o ddathlu. Mae'n anodd felly gysoni'r hyn a ddigwyddodd ar ddechrau mis Hydref oddi allan i diroedd Gaza, a'r cipio a'r lladd tra oedd yr Iddewon mewn dathliad hwyliog, yn peri i'r goleuadau ddiffodd ac i'r tywyllwch lywodraethu.

Yn yr un modd, mae'n anodd dirnad sut mae'r rhai a gipiwyd, ynghyd â'u teuluoedd, yn dyheu am ddatrysiad cadarnnhaol. Mae'r teuluoedd yn galw ar Benjamin Netanyahu a'i lywodraeth i ddal 'nôl ar y dialedd erchyll, a chwylio am ateb a fyddai'n sefydlu parch a heddwch ar diroedd Iddewon a Phalestiniaid. Er mor ddifrifol yw amgylchiadau'r tlodion a'r digartref yn rhannau helaeth o Ewrop, ni ellir cymharu'r sefyllfaoedd gwaethaf ym Mhrydain â'r cyd-destun o ddioddefaint yn Gaza ganol Rhagfyr 2023.

Bydd dinasyddion Wcráin yr un mor ansicr o drefniadau eu Nadolig hwythau. Mae ganddynt ar hyn o bryd well adnoddau meddygol, a bydd gwledydd Ewrop, ar y cyfan, yn cadw eu haddewid i ddarparu cymorth, ond bregus yw eu bywydau. Os digwydd bod yr adain dde yn yr Unol Daleithiau yn codi stêm ac y bydd crochlefain 'America Gyntaf', yn boddi llais y Tŷ Gwyn, pwy a ŵyr na allai'r Wcráin gyfoes fod o dan reolaeth Rwsia erbyn y Pasg. Mae simsanrwydd gwleidyddol y byd yn gywilydd i'r ddynoliaeth gyfan. Bu trafodaeth COP 28 eleni yn enghraifft bellach fod economi lwyddiannus yn cael y flaenoriaeth ar heddwch rhwng cenhedloedd ac amgylchedd glân ar draws y bydysawd.

Wrth ganu am y 'baban yn y preseb', cofiwn am y babanod yn theatrau rhyfel ein byd. Wrth weld delweddau o'r ddau riant yn ymgrymu wrth y crud, cofiwn am y rhieni sy'n galaru am y plant. Mae pobl na all dderbyn triniaethau meddygol mewn sawl gwlad ar gyfandir yr Affrig oherwydd bod y gwledydd cyfoethog yn hawlio'r rhan fwyaf o gyffuriau ac adnoddau ysbytai'r ddaear. Tybed faint o drigolion ac ymwelwyr Bethlehem a wyddai fod genedigaeth Iesu mor hanfodol i hanes eu daear hwythau? Faint o drigolion Israel heddiw sy'n effro i ddyheadau Iesu yn eu byd hwythau?

Mae cân yr angylion yn dal i'w chlywed heddiw: "Gogoniant yn y Goruchaf i Dduw ac ar y ddaear tangnefedd i ddynion sydd wrth ei fodd." Wrth i ni ei chlywed eleni, ai Nadolig y delweddau siwgwraidd gyda'r robin goch, y tinsel a'r hen ddyn barfog a'r gôt goch a ddaw i'r meddwl, ynteu gweld Iesu ynghanol sŵn ac arswyd Gaza a wnawn? Wrth ddilyn y tri gŵr doeth yn rhannu eu hanrhegion, a fyddwn yn barod i ymgrymu wrth grud Tywysog Tangnefedd ynghanol drewdod a biswail ein byd?

Denzil John

Cymdeithas Gweinidogion Bro'r Preseli

Cawsom ein cyfarfod Nadolig, a'n cinio Nadolig yn dilyn, fore Mawrth, 12 Rhagfyr 2023. Yn wahanol i'r rhaglen arferol, bob blwyddyn yn ein cyfarfod Rhagfyr, cyn ein cinio Nadolig, cawn gyfle i groesawu i'n plith a gwrando ar siaradwr gwadd, ac eleni roedd yn hyfrydwch i gael cwmni hynaws y brawd Cleif Harpwood. Mae bellach wedi setlo eto yn y gorllewin, gan ymgartrefu'n hapus ym Moncath yn sir Benfro, y tro hwn i'r de o afon Teifi.

Rhannodd Cleif gyda ni straeon difyr am Nadolig ei blentyndod yn Aberafan neu 'Brafan, fel y mae'n dweud wrth gyfeirio at ardal ei gynefin. Cydnabu ei ddyled i'w fagwraeth ar fron capel Bedyddwyr Ebeneser yn Aberafan, y capel lle'r addolai ei fam, a'i ddyled aruthrol i Alwyn Samuel, oedd yn brifathro arno yn Ysgol Gymraeg Pont-rhyd-y-fen. Clwysom am gariad Cleif at y Gymraeg a Chymreictod ei fagwraeth, ac roedd yn ddealladwy ei fod yn cartrefu'n dda eto mewn cymuned ac ardal Gymraeg. Bu'n gwmni braf gyda ni ac roedd yn hyfrydwch pur gwrando arno'n rhannu straeon difyr am ei gefndir a hefyd yr hyn, meddai, wrth iddo edrych yn ôl ar yrfa ddisglair, sydd wir yn cyfrif ac yn bwysig yn ei olwg. Roedd cloi'r sgwrs drwy ddarllen yn llawn emyn Ehedydd Iâl, ei hoff emyn – 'Y nefoedd uwch fy mhen' – yn glo bendigedig i'w stori a'i dystiolaeth yntau.

Wedi gwrando ar Cleif yn ein hannerch, cawsom gydwledda gan fwynhau'r ginio Nadolig ragorol a baratowyd i ni gan Robert Bowen a'i staff, sydd bob amser mor groesawgar ac yn gweini arnom yn rhadlon o fis i fis. Cyfarfod Nadolig bendithiol arall, a mawr oedd ein diolch am yr holl arlwy a'r gymdeithas braf a chynnes yng Ngaffi Beca.

Emyr Gwyn Evans

Myfyrdod ar y Nadolig cyntaf

Darlleniad: Luc 2:8–20 – Y Bugeiliaid a'r Angylion

'Canys bachgen a aned i ni, mab a roed i ni,
a bydd yr awdurdod ar ei ysgwydd.
Fe'i gelwir, "Cynghorwr rhyfeddol, Duw cadarn,
Tad bythol, Tywysog heddychlon".'
(Eseia 9:6)

Wrth inni fyfyrio ar eiriau'r proffwyd Eseia yn priodoli naw enw neu wedd ar natur cymeriad Iesu, mae'n bwysig inni gofio nad ailadrodd ei hun y mae. Mae'r gair 'Rhyfeddol' yn awgrymu y bydd yn berson arbennig iawn fel cyflawnwr gwyrthiau. Megis 'Cynghorwr', bydd yn ein cyfeirio at bethau gorau bywyd a'r bywyd ysbrydol, ac mi fyddai'n dda inni ddiyn ôl ei droed. Fel 'Duw Cadarn', ef yw'r Un Dwyfol, y Gwir Dduw o Wir Dduw, chwedl y garol, ac o ddod i'w nabod y down ni i nabod Duw yn well hefyd. Yna, sonnir amdano fel 'Tad Tragwyddol', yr un sy'n darparu, yn amddiffyn ac yn disgyblu ei blant mewn cariad. A'r disgrifiad olaf: 'Tywysog Tangnefedd'. Dyma'r Un ddaw â heddwch dwyfol i galonnau bawb sy'n ymddiried ynddo.

Ychydig o heddwch a welodd y byd eleni, rhwng y rhyfel ofnadwy rhwng Rwsia ac Wcráin, ac yna'r gyflafan erchyll rhwng Hamas a chenedl Israel. Yr un amgylchiadau, bron, a welwyd yn hanes Israel yng nghyfnod Eseia. Bygythiadau terfysgol, taranau rhyfel a chaethwasiaeth ar y gorwel, a chyn pen dim byddai tymor y gaethglud ym Mabilon yn digwydd. Er gwaethaf hyn i gyd, bu i Eseia gynnig neges o obaith i'r bobl 'oedd yn rhodio mewn tywyllwch a welodd oleuni mawr; y rhai a fu'n byw mewn gwlad o gaddug dudew a gafodd lewyrch golau' (Eseia 9:2). A ble neu pwy oedd y golau hwnnw? 'Canys bachgen a aned i ni, mab a roed i ni: Fe'i gelwir yn Dywysog heddychlon.'

'Shalom' yw'r term Hebraeg am dangnefedd. Yn wir, fe'i defnyddid fel ffordd o gyfarch rhywun, yn union fel y dywedwn ninnau, 'Shw'mai, sut mae petha!' heddiw. Canlyniad hynny dros y cenedlaethau oedd colli gafael ar wir ystyr y gair 'Shalom'. A phan gyhoeddodd Eseia fod y Meseia ar ddod i'r byd, a hynny fel 'Tywysog Tangnefedd', ychydig o danfnefedd a heddwch oedd yn y tir. Ac felly y bu hyd noswyl y Nadolig cyntaf ganrifoedd yn ddiweddarach. Wedi hir ddisgwyl a bron yn annisgwyl a diarwybod y daeth Crist i'n byd o'r diwedd.

Fe ddigwyddodd dau beth mewn gwirionedd ar y Nadolig cyntaf:
- cyflawnwyd addewidion Duw;
- cyflwynwyd tangnefedd y Meseia.

Cyflawni'r Addewidion

Y bugeiliaid: Dychmygwch ryw noson oer iawn yn yr hen Jwdea, a'r bugeiliaid wedi cynnau tân mewn hollt yn y graig er mwyn cadw'n gynnes rhag y rhewynt. Prin y gwyddent mai dyma'r noson y deuai Tywysog Tangnefedd i'w plith. Dim ond bugeiliaid tlawd, digon blêr ac anniben oedden nhw. Prin y câi'r rhain fynediad i unrhyw deml. Prinnach fyth fyddai eu gweld nhw yn rhoi tystiolaeth mewn llysoedd barn. Wedi'r cyfan, pwy fyddai'n credu tystiolaeth bugail? Hen bobl annibynadwy oedden nhw. Dywed y Talmud na ddylid estyn cymorth i na phagan na bugail. Meddyliwch!

Ond, diolch Iddo, nid oes rhagfarn gyda Duw. Byddai Duw yn cofio'r anghofiedig rai hyn mewn ffordd arbennig iawn. Weithiau, byddwn ninnau'n teimlo'n anghofiedig gan rai, yn unig, ar goll ac yn sefyll ar gyrion pethau fel petae, eisiau i heddiw ddod i ben ac eto ddim yn ewyllysio i yfory ddod yn rhy fuan, chwaith. Dyma pryd y canfyddwn Duw yn noddfa ac yn nerth, yn gymorth parod ym mhob cyfyngder. Diolch mai Duw llawn gras a chariad sydd gennym yn gefn. Roedd yn wir yn hanes y bugeiliaid, oes bell yn ôl, fel y mae i ninnau heddiw.

Yr angylion: Dychmygwch dywyllwch nos yn goleuo'n sydyn fel canol dydd. Yna, angel yr Arglwydd yn ymddangos gan gyhoeddi, 'Peidiwch ag ofni, oherwydd wele, yr wyf yn cyhoeddi i chwi y newydd da am lawenydd mawr a ddaw i'r holl bobl: ganwyd i chwi heddiw yn nhref Dafydd, Waredwr, yr hwn yw'r Meseia, yr Arglwydd' (Luc 2:10–11). Yna, meddai'r Gair, ymddangosodd 'llu nefol, yn moli Duw gan ddweud: "Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd ymhlith y rhai sydd wrth ei fodd." ' (Luc 2:12–14)

Yna, ar amrantiad, diflannodd y cyfan. Tybed sut oedd y bugeiliaid yn teimlo erbyn hynny? Gallaf eu dychmygu'n mynd 'i Fethlem oll dan ganu': "Gogoniant yn y goruchaf ac ar y ddaear tangnefedd." Tangnefedd … tangnefedd! Dim mwy o ryfela, na chasineb, na lladd y diniwed, a'r milwyr Rhufeinig wedi mynd adref. Mynd ar frys wnaethon nhw er mwyn cael adrodd am ryfeddodau'r noson wrth y teulu bach yn y beudy tlawd. Ac er mawr syndod iddyn nhw, ond ddim chwaith rywsut, rhyfeddodd pawb atynt yn dweud yr hanes: yn cyflwyno rhyfeddodau a chredu gair yr Arglwydd ddaeth iddynt y noson honno.

Dim heddwch wedi'r cyfan: Trwy dreiglad y misoedd, roedd y wlad yn clywed rhyw si fod yna gyfnod o heddwch ar fin dod. Ond yna – och a gwae. Daeth mintai o filwyr Rhufeinig gyda gorchymyn gan Herod i ddifa pob bachgen dwyflwydd neu lai. A dyna wnaed – cyrch erchyll ar aelwydydd Bethlehem a'r cyffiniau. Daw'r hanes inni yn Efengyl Mathew: 'Clywyd llef yn Rama, wylofain a galaru dwys; Rachel yn wylo am ei phlant, ac ni fynnai ei chysuro, am nad oeddent mwy.'

Bron na chredwn ni fod yr esgid ar y droed arall ar erbyn hyn yn nhiriogaeth Palesteina ac yn arbennig yn Llain Gaza a'r Lan Orllewinol. Clywch y miloedd calonnau toredig yn gweiddi, 'Celwyddgwn oedd yr angylion. Nid oes heddwch ar lawr gwlad i'w gael i ni! Pwy a'n beiai am ddweud fel y bardd Longfellow gynt, "Ac mewn anobaith fe blygais fy mhen. Nid oes tangnefedd ar y ddaear!" Onid Tywysog Tangnefedd yw Iesu?'

(I'w barhau)

Jim Clarke

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru